

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 3 Ionawr 20, 2022 50c.

Colofn Geir-iau • Desmond Tutu

Bore Gŵyl San Steffan, bu farw'r Archesgob Desmond Tutu yn 90 oed. Gŵr carismataidd a chanddo ddyhead yn nyfnder ei fod i weithio er mwyn gweld y byd hwn yn well byd. Roedd yn Gristion bywiog ac eangfrydig; ymgyrchydd egniol yn erbyn y gyfundrefn apartheid yno; gweithiodd yn ddiflino i ryddhau Nelson Mandela o'r carchar. Anrhydeddwyd ef â Gwobr Heddwch Nobel ac roedd yn gadeirydd y comisiwn gwirionedd a chymod. Roedd yn fyr o ran taldra, ond yn gawr o ddyn serch hynny. Areithiwr grymus ac ysbrydoledig a dreuliodd ei fywyd nid yn unig yn arwain ymgyrchoedd ond hefyd yn annog eraill i barhau i ymgyrchu. Byddai Desmond Tutu bob amser yn atgoffa pobl bod anghyfiawnderau mawr yn cael eu concro pan fo pobl o ffydd wedi ymgyrchu a sefyll yn gadarn.

Araith heriol

Mewn araith rymus yn ystod cynhadledd COP Copenhagen rai blynyddoedd yn ôl, heriodd ei wrandawyr i sefyllfa yn gadarn a dweud 'na' i wrthwynebu'r anghyfiawnderau sydd wrth wraidd dioddefaint yn sgil newid hinsawdd. 'Rydym yn perthyn i un teulu,' meddai wrth annerch llond sgwâr o ymgyrchwyr. 'Rydym yn chwiorydd a brodyr i'n gilydd, aelodau un teulu, teulu dyn, teulu Duw. Rydyn ni'n perthyn i'n gilydd ... gadewch i ni rodio gyda'n gilydd a gweithio gyda'n gilydd i greu byd gwell i bawb. Mae'r byd yn ddigon mawr i bob un ohonom; dy'n ni ddim angen rhagor o newyn, dim rhagor o dlodi, dim rhagor o ryfela. Rydym ni angen byd o heddwch, byd o chwerthin, byd o lawenydd, byd o ofalu am ein gilydd.'

Y Llyfr Gwyn

Ymwelodd â Chymru ar sawl achlysur gan gwrdd â mudiadau oedd wedi magu



Llun gan Ysgol Plas Mawr

cysylltiadau ag Affrica dros y blynyddoedd. Ac mae yna gysylltiad bach rhyngddo ef a'm tref i, sef Caerfyrddin. Yn ystod ei ymweliad olaf â Chymru yn 2012, ymwelodd ag Ysgol Gyfun Plasmawr, Caerdydd. Yno i'w gyfarch yr oedd Mererid Hopwood, ac yn ei meddiant y diwrnod hwnnw yr oedd Llyfr Gwyn Caerfyrddin – sef llyfr â'i dudalennau'n wag lle caiff y sawl sy'n ymrwmo i weithio dros heddwch a chyfiawnder ei arwyddo. Nid oedd angen gofyn ddwywaith i Desmond Tutu. Aeth ati ar unwaith i arwyddo Llyfr Gwyn Caerfyrddin. A dyma englyn hyfryd a




Llun gan Tudur Dylan Jones

luniodd Mererid Hopwood i nodi'r achlysur hanesyddol hwn:

Dod a'i Air wnaeth i'r dwyrain – a'i lais mwyn

drwy Blasmawr yn atsain,
yna â gwên, rhoi mewn llaw gain
enw arwr i'n harwain.



Llofnod D. Tutu gan Tudur Dylan Jones

Di-drais

Mewn teyrnged iddo, dywedodd y Barnwr Dingh, cadeirydd Race Council Cymru, 'Ry'n ni'n cydymdeimlo'n ddwys â'i deulu ac yn cofio am ddyn yr oedd ei lais yn gryfach nag anghyfiawnderau hiliol a'r apartheid a ddioddefodd pobl ddu De Affrica.' Trwy gydol ei fywyd, ym mhob ymgyrch, pwysleisiodd Desmond Tutu bwysigrwydd y brotest ddi-drais. Dyna ffordd Iesu. Ffordd cariad a chyfiawnder a maddeuant.

Y mae llu o ddyfyniadau bachog ac ysbrydoledig gan Desmond Tutu. Dyma un dyfyniad o'i eiddo sydd wedi creu argraff arna i: 'Gwnewch eich pwt bach chi o ddaioni yn y man ble'r ydych chi; y darnau bychain hynny o ddaioni, o'u tynnu ynghyd, fydd yn goresgyn y byd.' Mae'n hawdd iawn i ni feddwl nad yw ein cyfraniad bach ni yn cyfri dim pan ystyriwn anferthedd problemau'r byd. Ond fel mae Desmond Tutu yn dweud yn y dyfyniad uchod, y mae ein cyfraniad bach ni'n bwysig beth bynnag yw ei faint oherwydd drwy'r cyfraniadau bach gyda'i gilydd, y mae'r un yn troi'n llawer, mae'r llawer yn troi'n fwy, ac yn y pendraw bydd y mwy yn troi'n ddigon.

Elin Wyn James

Mae Elin yn byw yn Llundain ac yn aelod yn eglwys y Priordy, Caerfyrddin ond yn mynychu Eglwys Gymraeg Canol Llundain. Graddiodd mewn Diwinyddiaeth a Chrefydd o Brifysgol Birmingham yn 2020 a bellach mae'n gweithio fel cynhorthwydd dysgu mewn ysgol.



COFIO'R PARCHEDIG EIFION GILMOUR JONES

Roedd Eifion o gyfansoddiad cryf ac o bersonoliaeth rhadlon, hamddenol. Gwelwyd y ddwy elfen yna – y cryf a'r hamddenol drwy'i weinidogaeth faith mewn ardaloedd gwahanol i'w gilydd. Ar aelwyd Eglwys Bresbyteraidd Carmel, Conwy y'i magwyd ef a'i ddwy chwaer Rhiannon a Mair, a bu dylanwad y gweinidog oedd yno yng nghyfnod ieuentid y tri yn un arhosol, sef y Parchedig J. W. Jones, a oedd, wrth gwrs, yn un o hoelion wyth y pulpud Cymraeg, ac o dan ddylanwad gweinidogaeth JW y codwyd Eifion i'r weinidogaeth; ei ordeinio yn 1960, a'i sefydlu yn eglwysi Presbyteraidd Seilo, Llwydiarth; Llangadfan a Gosen, Llanerfyl. Arhosodd yno yng nghanol mwynder Maldwyn hyd 1965 pan gymerodd y cam i ddyffryn clodfawr Clwyd a'i sefydlu yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd ar eglwysi'r Fron a'r Brwews (Brookhouse), Dinbych, gan ychwanegu eglwysi eraill yng nghwrs y blynyddoedd. 39 o flynyddoedd o wasanaeth a roddodd i'r cylch hwnnw a gweld cynnydd rhyfeddol yn y teuluoedd ifanc a ddoi i fyw i Ddinbych, yn arbennig yn ystod y Saithdegau ac eglwys Y Fron yn cynyddu ar garlam, ac Eifion ynghanol y berw, yn bwylllog a chryf. Felly hefyd y bu hi yn llawer o'r eglwysi eraill yn Nyffryn Clwyd yn ystod y cyfnod hwnnw a thwr o

weinidogion ifanc yn y Dyffryn.

Gofalaeth newydd

Er i Eifion yn 2004 ddimunio cario 'mlaen fel gweinidog yn arbennig i gyrraedd y deugain mlynedd yn Ninbych, nid oedd yr enwad Presbyteraidd yn y cyfnod hwnnw yn fodlon i neb gario 'mlaen yn llawnamser wedi cyrraedd oed arbennig. Wel, os mai felly oedd hi i fod, felly roedd hi i fod ond doedd hynny ddim yn mynd i roi stop ar gerbyd Eifion Gilmour Jones, nac ar ei weinidogaeth, nac ar gylchoedd ei weinidogaeth. Dyma'r cyfnod y cydiodd mewn tair ardal wahanol i'w gilydd; Caersalem (P), Fflint; Seion (P), Corwen (gan rannu'r weinidogaeth yno a'r Parchedig T. L. Williams) ac Ebeneser (A), Hen Golwyn a Bethel (A), Penmaenrhos hyd nes caewyd drysau Bethel yn 2011. Dim ond person corfforol gryf, yn ei saithdegau bryd hynny, fedrai gydio tair ardal wahanol ac yn gymharol bell oddi wrth ei gilydd. A doedd teithio i gynnal oedfaon eraill yn poeni dim ar Eifion; gallasai fod yn Fflint yn y bore; Rhydymain yn y pwna a phen draw Sir Fôn yn y nos.

Personoliaeth

Roedd o'n glamp o gymeriad. Cryf, oedd; pwylllog, oedd. Ond yr oedd pobl yn bwysig iddo, ac yr oedd ganddo ddiddordeb mawr mewn pobl, yn

arbennig yn y cylchoedd y bu'n gweinidogaethu ynddynt, ac er mai un oedd wedi ei fagu mewn tref oedd o, roedd 'na rywbeth yn arbennig o wladaidd ynddo hefyd, ac oherwydd hynny roedd yn ddynd agos at ei bobl heb geisio bod yn neb ond ef ei hun – a dyna oedd yn braf amdano – Eifion oedd Eifion lle bynnag yr oedd, ac efo pwy bynnag, a doedd yna ddim mymryn o ysbryd cowtowio i fawrion ynddo, pwy bynnag ydi'r rheini. Roedd yn trin pawb run fath, ac yn awyddus am sgwrs o hyd a gorau oll os oedd y sgwrs uwchben pryd o fwyd! Ac os oedd yna siop hen greiriau yn ymyl, dyna eisn ar y gacen.

Gadawodd ei ôl mewn sawl ardal, a chafodd ymgeledd cymwys iawn yn Gwennllian, a gollwyd yn ifanc, ac yna'r plant – Eilir, Mirain a Llŷr a'u teuluoedd hwythau yn bopeth iddo ar hyd y blynyddoedd.

Bu farw'n 87 oed ar Hydref 9, 2021 a chynhaliwyd ei angladd yng Nghapel y Fron a mynwent Dinbych ar 26 Hydref o dan arweiniad ei weinidog y Parchedig Ddr Andras Iago gyda chymorth y Parchedigion Reuben Roberts, Bontnewydd; Graham Floyd, Dinbych; Tudur Rowlands, Rhuthun (eto a fagwyd yng Ngharmel, Conwy) a Christopher Prew, Porthmadog (a godwyd i'r weinidogaeth o'r Fron o dan weinidogaeth Eifion).

Diolch i Dduw amdano ac arhosed tangnefedd yr Arglwydd ar ei deulu.

Iwan Llewelyn

Allweddeiriau 2 Tad

Geiriau cyntaf Gweddi'r Arglwydd yw: 'Ein Tad yn y nefoedd ...' (Mathew 6:9). Er bod y geiriau hyn yn rhai hynod o gyfarwydd (gan ein bod yn gweddio Gweddi'r Arglwydd bob dydd Sul), ydym ni wedi treulio amser yn myfyrio ar eu harwyddocâd? Oherwydd, trwy ein dysgu i weddio fel hyn, mae Iesu yn ein hatgoffa o wirionedd tra phwysig: mae Duw yn *dad* i bob Cristion.

Fel Mab Duw, yn ystod ei weinidogaeth, roedd Iesu'n fynych yn cyfeirio at Dduw fel ei 'dad'. Er enghraifft, yn Ioan 14:2, dywedodd Iesu: 'Yn nhŷ fy *Nhad* y mae llawer o drigfannau.' Er hynny, yr hyn sy'n drawiadol ydy fod Iesu hefyd yn gwahodd y rhai sy'n credu ynddo i alw

Duw yn 'dad' iddynt. Yn wir, wrth iddo ddysgu ei ddisgyblion i weddio, mae'n dweud: 'gweddïa ar *dy Dad* sydd yn y dirgel.' (Mathew 6:6)

Mabwysiad

Pam ein bod ni'n cael y fraint o alw Duw – Creawdwr y nefoedd a'r ddaear – yn 'dad' i ni? Wel, yn syml, gan ein bod ni trwy gredu yn Iesu Grist wedi cael ein



Gan Liane Metzler, Unsplash

mabwysiadu yn blant i Dduw. Lle'r oeddem gynt yn bell oddi wrtho, rydym yn awr yn rhan o'i deulu a gallwn ei alw'n dad.

Mae hwn yn wirionedd gwerthfawr sy'n ein helpu i wynebu bywyd. Pa mor anodd bynnag yw ein hamgylchiadau, gallwn lawenhau mai Duw yw ein Tad. Gallwn ddiybennu arno'n llwyr a gallwn droi ato mewn gweddio bob amser.

Dyma'r ffordd mae Thomas Charles yn diffinio'r berthynas rhwng Cristnogion a'u Tad Nefol yn ei *Eiriadur Ysgrythyrol*: 'Y mae Duw yn Dad i'w bobl yng Nghrist, a thrwy eu hundeb â'r Mab tragwyddol ... Y mae yn sefyll mewn perthynas agos â hwynt fel Tad yn ei holl fawredd dwyfol, ei allu, ei gariad, ei gyfoeth, a'i ras. Fel Tad y mae yn caru, yn arbed, yn ceryddu, yn hyfforddi, yn cyfoethogi, ac yn ymhyfrydu yn ei bobl.'

Gwilym Tudur

Dyfodol Canolfannau EBC – Trefeca



Coleg Trefeca

Yr wythnos hon, fel ymateb i'r newyddion fod Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi dod i benderfyniad ar ddyfodol eu canolfannau preswyl yn y Bala ac yn Nhrefeca, cawn glywed ymateb personol Cadeirydd Ymddiriedolwyr Trefeca. Bu'r Parch. Trefor Lewis yn warden yno ynghyd â'i wraig, Miriam, am gyfnod. Mae Canolfan Trefeca ynghlwm â tharddiad Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac o bwys yn hanes Cristnogaeth yng Nghymru, oherwydd mai yno oedd cartref un o arweinwyr amlycaf y mudiad Methodistiaidd yn y ddeunawfed ganrif, sef Howell Harris. Cawn air hefyd gan y Parch. Jenny Garrard wrth iddi hi werthfawrogi'r hanes diweddar sydd i'r ganolfan fel Canolfan Gwaith Lleyg yn yr eglwys.



wythnos, i aros yno i fyfyrto, a hyderaf y byddwn yn anrhydeddu unrhyw drefniant a wneir ar gyfer y dyfodol. Gall pob un sydd â diddordeb gael rhagor o fanylion drwy ffonio 01874 711423.

Beth bynnag fydd canlyniad trafodaethau'r Ysgrifennydd Cyffredinol gyda phartneriaethau eraill, yr wyf o'r farn ei bod yn gwbl angenrheidiol 'sicrhau defnydd o'r lle gan y Cyfundeb yn ôl y galw'.

Cefnogir argymhellid y Panel i gadw mewn cof lesiant y staff, yn benodol Mair a Richard a staff y gegin, sydd wedi cynnal y gwaith ar hyd y blynyddoedd.

*Trefor Lewis
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr*

'Y graig y cawsoch eich naddu ohoni'

Da oedd gweld fod y Panel Adolygu yn unfrydol 'fod safle Trefeca, o ran ei hanes a'i leoliad yn un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr' ac 'i'r perwyl hyn y mae'r Panel yn gwbl gytûn na ddylai y Cyfundeb symud i sefyllfa y byddem yn colli gafael ar y safle hwn'. Dyma, wrth gwrs, grud Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, ac y mae'n werth i ni gofio geiriau Esei: 'ystyriwch y graig y cawsoch eich naddu ohoni, a'r chwarel y cawsoch eich cloddio ohoni' (51:1).

Ers gweledigaeth y Cyfundeb yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf o droi'r hen Goleg Paratoawl yn ganolfan breswyl ar gyfer encil Gristnogol, daeth unigolion, grwpiau eglwys, myfyrwyr ac ymgeiswyr am y weinidogaeth Gristnogol i dreulio amser yn Nhrefeca. A thros y blynyddoedd gwelwyd grwpiau seciwlar yn cynnal cyfarfodydd hyfforddiant ayyb yno. Tystiolaeth pob un, yn cynnwys grwpiau seciwlar, a dreuliodd benwythnos neu gyfnod byrrach yn Nhrefeca, yw ei fod yn llecyn arbennig, gyda phrydferthwch a thawelwch y fro yn creu awyrgylch 'ysbrydol'.

Yn ystod y ddwy flynedd o gyfyngiadau oherwydd Cofid 19 agorwyd y drysau gan ddilyn cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd cyfle yno i weinidogion a gweithwyr EBC ac eraill i dreulio cyfnod o seibiant haeddiannol, tawel, o swm y byd:

Wel dyma hyfryd fan
i droi at Dduw,
lle gall credadun gwan
gael nerth i fyw.

Gobaith y Panel yw y bydd ei benderfyniad yn cael ei wireddu erbyn diwedd 2022. Yn y cyfamser, bydd y Ganolfan ar gael i'w llogi gan grwpiau eglwysig, unigolion, boed am benwythnos neu ddyddiau yn yr

deirgwaith y flwyddyn i'n myfyrwyr sydd bellach ar wasgar mewn colegau a phrifysgolion eraill.

Roeddwn yn gwerthfawrogi'n fawr y ffordd yr oedd rhaglen Trefeca yn herio'r enwad. Heriodd ein hundod ag eglwysy eraill (gan gynnwys llawer o gyfarfodydd cynnar Cytûn), ein herio i ymgysylltu â diwydiant, â pholisiau'r llywodraeth, â'n cymunedau lleol, ac i ddod o hyd i bartneriaid y gallem weithio efo nhw yn y byd. Bu - ac y mae - ei gyfleusterau preswyl da hefyd yn golygu y gallai gynnig lle adferol, iachusol, i'r rhai ag anghenion ac anabledau, gan gynnwys y rhai y tu hwnt i'n ffiniau Cymreig (e.e. pobl ifanc Catholig a Phrotestannaidd o lwerddon yn ystod y trafferthion, teuluoedd o Grenfell Tower yn fwy diweddar).

Mae llawer o'n haelodau eglwysig yn dysgu sgiliau newydd a ffyrdd newydd o fod yn eglwys ers Covid, ac rwy'n dal i gredu bod Trefeca mewn sefyllfa unigryw i'n helpu yn hynny o beth.

Jenny Garrard

Cristion

Bellach, mae rhifyn Ionawr / Chwefror o'r cylchgrawn *Cristion* ar gael yn eich siopau lleol.

Y tro hwn, thema'r rifyn yw Cariad, a thrwy gyfraniadau amrywiol, cawn ein tywys i wahanol gyfeiriadau wrth iddynt ymateb i'r thema. A hithau'n dal i fod yn dymor y plygeiniau, edrych ar thema cariad yn y carolau plygain a wna'r Dr Rhianon Ifans, tra mae Sandra Storch a Nerys Griffiths yn edrych ar y thema o gyfeiriad rhai o hanesion yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Ym mis Ionawr, cawn ein harwain ar y 25ain i gofio am nawddsant cariadon Cymru, sef Dwynwen, ac adlewyrchir hynny yn yr erthygl 'Ffydd ar Daith'. Yna, ar 27 Ionawr, cawn ein sobri wrth nodi diwrnod coffâu'r Holocaust, ac ymateb i hynny mae'r erthygl gan y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor.

Cipolwg yn unig yw hyn ar yr amrywiaeth a'r cyfoeth a geir yn y rhifyn presennol. Ac, wrth gwrs, peidiwch ag anghofio am y fideo sy'n cyd-fynd â'n colofn '[Gair o'r Galon](#)' ar ein gwefan bob tro - y tro hwn, yng nghwmni'r Parchedig Eric Greene a Mrs Haf Greene. Mynnwch gopi un ai drwy eich siop leol neu drwy'r [wefan](#), a gobeithio y cewch flas a bendith wrth ei ddarllen.

'Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad'

Deunyddiau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol



Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2022

*Gwelsom ei seren
ef ar ei chyfodiad*

We Saw His Star in the East
Week of Prayer for Christian Unity 2022

18-25 Ionawr www.ctbi.org.uk/weekofprayer

Yn ystod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, fe'n gwahoddir i fyfrio ar y Gair bob dydd gyda Christnogion y Dwyrain Canol sydd wedi paratoi'r deunyddiau hyn. Gwahoddir ni hefyd i weithredu ac i gydgyssylltu efo Cristnogion o draddodiadau eraill o'n cwmpas gyda'r bwriad o oleuo gyda'n gilydd dros Grist fel sêr yn y nos. Gallwch lawrlwytho'r myfyrdodau i gyd yn y Gymraeg ac iethoedd brodorol eraill y Deyrnas Unedig ar wefan [Eglwysi Ynghyd](#) ym Mhrydain ac Iwerddon.

DIWRNOD 1

"Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad"

(Mathew 2:2)

Cyfof ni a thyn ni at dy oleuni perffaith

Darlleniadau

Salm 139:1-10 – Bydd dy ddeheulaw yn fy nghynnal.

2 Timotheus 1:7-10 – Y gras hwn ... a amlygwyd yn awr drwy ymddangosiad ein Gwaredwr, Crist Iesu.

Myfyrdod

Yn y byd bregus ac ansicr hwn, rydym yn chwilio am oleuni. Rydym yn chwilio am y daioni o fewn ein hunain, ond yn aml rydym yn cael ein llethu cymaint gan ein gwendid fel bod ein gobaith yn pylu. Mae ein hyder yn gorffwys yn Nuw, sydd, yn ei ddoethineb, yn ein galluogi i obeithio am ei drugaredd – ond cawn ein synnu pan ddaw ei drugaredd ar ffurf ddynol: Crist yw'r goleuni yn ein plith! 'Ysbryd sy'n

peri nerth a chariad' yw rhodd Duw i ni. Nid drwy ddiybnyu ar ein nerth a'n gallu ein hunain y cawn ein harwain ar y ffordd i'r goleuni perffaith hwn, ond yn hytrach drwy arweiniad Ysbryd Glân Duw.

Mae goleuni'r seren o'r dwyrain yn treiddio i ddyfnderoedd y tywyllwch sy'n ein gwahanu oddi wrth ein gilydd. Mae'r seren yn parhau i ddisgleirio a newid wyneb hanes. Ar hyd yr oesoedd mae'r byd wedi dod i adnabod, drwy fywydau dilynwyr Crist, y gobaith sy'n cael ei ysbrydoli gan yr Ysbryd Glân. Ac mae'r Crist Atgyfodedig yn parhau i ddisgleirio, fel llusern i'n harwain ni oll i'r golau perffaith hwn, gan oresgyn y tywyllwch sy'n ein gosod ar wahân.

Mae'r awydd i oresgyn tywyllwch arwahanwydd yn ein gorfodi i weddio a gweithio dros undod Cristnogol.

Gweddi

Greawdwr goleuni,

goleua ein llwybr wrth oleuni Crist, sy'n mynd o'n blaen ac yn ein harwain.

Bydded yntau'n llusern i'n pererindod.

Goleua ni a thriga ynom ni.

Tywys ni i ganfod preseb yn ein calonnau lle mae goleuni mawr yn parhau i ddisgleirio.

Diolchwn i ti am rodd y Seren honno nad yw'n pylu, Iesu, ein Harglwydd a'n Gwaredwr.

Iachâ ein rhaniadau a thyn ni'n agosach at y Goleuni

fel y gallwn ganfod ein hundod ynddo ef.

Amen.

Pennill Emyn

Peraidd ganodd sêr y bore

ar enedigaeth Brenin nef;

doethion a bugeiliaid hwythau

deithient i'w addoli ef:

gwerthfawr drysor,

yn y preseb Iesu gaed.

Morgan Rhys (1716-79)

Cwestiynau

Wrth fyfrio ynghylch y flwyddyn a aeth heibio:

- byd-eang: Beth allai swyddogaeth yr Eglwys fod wrth gyhoeddi newyddion da'r Efyngyl mewn byd lle mae cymaint o anghyfiawnder?
- lleol: Ble ydych chi wedi gweld arwyddion o obaith yn eich cymuned, yn enwedig yn ystod cyfnod o bandemig?
- personol: Sut ydych chi wedi ceisio'r 'goleuni' yng nghanol y tywyllwch?

Ewch a Gwnewch (gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Byd-eang: Ewch i wefan [Embrace the Middle East](#) a gweld pa gamau y gallwch eu cymryd i gydsefyll â Christnogion y Dwyrain Canol.

Lleol: Trefnwch wylnos wrth olau kannwyll ar ran eglwysi eich ardal fel gweithred o undod ar gyfer yr wythnos hon. Nid oes raid i'r wylnos fod yn fater o bawb yn dod ynghyd yn un lle, ond gallai olygu bod pob eglwys yn annog ei haelodau i osod kannwyll mewn ffenestr ar ddiwrnod ac amser penodol.

Personol: Syllwch ar y sêr yr wythnos hon. Edrychwch ar seren lachar ac oedwch mewn gweddi ac addoliad gerbron Creawdwr goleuni. Nid oes raid i chi fynd allan – gallech ymweld â phlanetariwm ar-lein.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 23 Ionawr, am 7:30yh (ailldarllledir y Sul canlynol am 11:30yb)

Yr wythnos yma byddwn yn dathlu cariad. Bydd Lisa ar Ynys Llanddwyn

ym Môn yn dysgu mwyl am hanes rhyfeddol Santes Dwynwen yng nghwmni Rhiannon Ifans. Cawn berfformiad bendigedig gan Glesni Fflur o alaw'r gân Americanaidd 'The Rose' a geiriau cyfarwydd 'Calon Lân'

Dyma gopi o gylchlythyr *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* am fis Ionawr – <https://express.adobe.com/page/S5Yt6uFtEoJzW/>

radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 23 Ionawr, 7:30yb a 4:30yp

Euros Rhys Evans sy'n cyflwyno cyfres am aelodau

o'r un teulu sydd wedi gwneud cyfraniad i'n hemynyddiaeth. David Charles a'i fab, David Charles, sydd dan sylw heddiw.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 23 Ionawr, 12:00yp

Gwasanaeth yng ngofal Dr Hefin Jones, Caerdydd.

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

11 Rhoi theori ar waith

Heddwch a phroblem dioddefaint

Darllen: Rhufeiniaid 8:18–30

'Yr wyf fi'n cyfrif nad yw dioddefiadau'r presennol i'w cymharu â'r gogoniant sydd ar gael ei ddatguddio i ni' (adn. 18).

Beth sydd yna i beidio â'i hoffi am heddwch? Mae'n debyg i'r dywediad Americanaidd: 'Motherhood and apple pie', sef bod ei ddaioni uwch pob cwestiynu a beirniadaeth. Ond os oes yna un mater sy'n achosi i bobl fod yn amheus am heddwch Duw, yna problem dioddefaint yw honno. Sut ydym ni'n cael addewidion aruchel y Beibl i gydorwedd efo ymyrraeth greulon i fywyd bob dydd y dioddefaint erchyll y mae llawer o bobl yn gorfod ei oddef ar brydiau, gan gynnwys y rheiny sydd wedi gosod eu hymddiriedaeth yn Nuw?

Yn wir, mae trywydd y stori yr ydym yn ei dilyn yn llai nag addawol. O'r creu a'r cwmp ac ymlaen drwy stori pobl Dduw, fe welwn gri am heddwch o genhedlaeth i genhedlaeth. Hyd yn oed gyda geni Iesu, Tywysog Tangnefedd, fe ddaeth dioddefaint wrth i Herod ladd yr holl hogiau bach o dan ddwyflwydd oed ym Methlehem a'r cyffiniau (Mathew 2:16). Fe dderbyniodd Mair addewid y byddai ei chalon yn cael ei thorri; fe garcharwyd a dienyddiwyd loan Fedyddiwr; ac fe boenyddiwyd Iesu cyn ei groeshoelio. Fe gafodd Steffan ei ferthru, ac fe ddienyddiwyd Pedr, Paul ac eraill hefyd oherwydd eu ffydd. Hyd heddiw, mae dynion a merched yn marw oherwydd eu ffydd, a hynny yn aml dan law poenydwyr sadistaidd. Fe fyddai'r addewid yma o heddwch yn ymddangos fel petai'n anodd dal gafael ynddi ar y gorau ac ar ei gwaethaf yn ddim namyn rhith. A oes unrhyw ryfeddod i bobl sôn dros y blynyddoedd am roi Duw o flaen ei well er mwyn ateb y cyhuddiad o fod yn dawel, yn absennol, yn ddiotal yn wyneb dioddefaint?

Os ydym i fentro ymateb, yna'r peth cyntaf i'w ddweud ydy bod Duw yng Nghrist wedi dod yn y cnawd oherwydd yr union ddiodeffaint yma. Mae'r Rhufeiniaid 8:18–30 yn tynnu ein sylw at 'dair ochneid': mae'r holl greadigaeth yn ochneidio (adn. 22); ochneidiwn ninnau ynom ein hunain (adn. 23); ac ar yr adegau hynny pan na allwn hyd yn oed weddio oherwydd gwendid ein ffydd, mae'r Ysbryd Glân yn ymbil drosom ag ochneidiau y tu hwnt i eiriau (adn. 26). Gwelwn yr ochneidio hyn o'n cwmpas ym mhob man: dyn yn 'codi cledd i ladd ei

frawd', trychinebau naturiol, damweiniau enbyd, teroristiaid anllad a feirysau gwyllt – yr oll yn cyfrannu at fwydlen ddyddiol o boen sy'n ymlyu ar anobaith.

Felly, cyn inni daflu carreg i gyfeiriad Duw gyda'r ddedfryd ymhlyg yn y geiriau, 'Pam nad wyt ti'n gwneud rhywbeth?', fe ddylem ni ymrafael â'r ffaith fod Duw, yn wir, wedi gwneud rhywbeth. Yng ngenedigaeth, bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu, mae Duw wedi newid tirwedd dioddefaint dynol am byth. Fe welwn mewn ychydig sut mae wedi newid, ond wrth y groes y cafodd yr ergyd farwol ei tharo yn erbyn y drygioni sy'n ein poeni yn y byd. 'Ef ei hun a ddygodd ein pechodau yn ei gorff ar y groesbren' (1 Pedr 2:24), ac wrth wneud hynny fe ymddengys bod Duw wedi gweithredu'n derfynol er mwyn ailosod y diffyg balans personol a moesol sy'n tarfu ar y byd, fel y platiau hynny'n troelli y soniwyd amdany'n nhw ynghynt.

Sut mae hynny'n berthnasol i 'ochneidiau'r greadigaeth' – y daearyn sy'n llyncu bywyd, y nam trydanol sy'n rhoi'r fflach cychwynnol i dân mewn bloc o fflatiau, neu ymlediad rhyw glefyd angheuol – dydw i ddim yn gwybod yn iawn, ond hwyrach bod cydnabod yr ansefydlogrwydd moesol a chreadigaethol yn y byd yn gadael inni obeithio am ddydd pan fydd daear adferedig Datguddiad 22:1 yn realiti. Hyd hynny, yr ydym yn byw yn y byd hwn o boen. Mae'n dal yn fyd lle gallwn dyfu'n fwy dynol ynddo; mae'n rhoi inni'r mwnderau a'r peryglon sy'n rhan cynhenid o'n bywyd bob dydd. Rydym yn fodlon mentro byw, oherwydd wrth wneud hynny yr ydym yn cynyddu mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o'n byd ac ohonom ein hunain.

Ond mae mentro yn cerdded ochr yn ochr â thrasiedi, ac mae trasiedi yn boenus. Fyddai yna ddim poen pe na baem ni'n caru nac yn malio, ond yr ydym yn caru ac yn malio, felly yr ydym yn galaru ac yn teimlo poen difesur. Beth a wna Duw? Ein problem yw na allwn ni ddychmygu byd arall, byd lle bydd diwedd ar boen.

Yn y cyfamser gallwn ddewis caru a bod yn addfwyn, yn garedig a thrugarog. Gallwn hefyd ddewis casáu a bod yn dreisiol, yn galed ac yn oer tuag at eraill. Gallwn ddewis aros adref wrth y tân ac osgoi posibilrwydd damweiniau, er y byddem yn marw o ddiflastod a chael ein hamddifadu o fwynhau byd rhyfeddol Duw. Os dygir ein dewisiadau oddi arnom, nid ydym yn creu byd o heddwch; rydym yn creu byd

o robotiaid, byd amddifad o fodau dynol. Ein rhyddid ewylllys yw'r hyn a'n gwna ni'n ddynol ac a wna ein haddoliad o Dduw yn aberth gwirioneddol o fawl.

Popeth yn ddrwg cyn belled! Mae'n swnio fel petawn i'n dweud, 'Stopiwch gwyno. Mae bywyd yn dda.' Dydy o ddim yn dda – wel, nid bob amser ac nid i bawb. Ond dydyn ni ddim wedi ymgodymu efo'r atgyfodiad eto. Cawsom gipolwg eisoes ar y byd newydd y sonnir amdano yn y Beibl, y byd na allwn ei ddychmygu, yn atgyfodiad Iesu. Dywed yr apostol Paul wrth Gristnogion Corinth:

Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffwrth y rhai sydd wedi huno. Gan mai trwy ddyd y daeth marwolaeth, trwy ddyd hefyd y daeth atgyfodiad y meirw. Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist. (1 Corinthiaid 15:20–22)

Rai blynyddoedd yn ôl, fe aeth gŵr ifanc, 18 oed, yn yr eglwys lle roeddwn i wedi bod yn fugail, dramor am flwyddyn o genhadaeth. Yn ystod yr amser hwnnw dramor, fe dyfodd mewn ffydd o fod yn rhywun yr oedden ni wedi bod yn fodlon mentro'i anfon i fod yn rhywun yr oedd Duw wedi gwneud pethau mawr iddo. Roedd yr eglwys yn edrych ymlaen yn eiddgar i'w dderbyn yn ôl. Dychmygwch deimladau ei deulu a'r eglwys pan gyrhaeddodd y newydd ei fod wedi ei ladd mewn damwain ar y ffordd i'r maes awyrennau i hedfan adref!

Bûm mewn gofid mawr wrth feddwl am hyn gan ddod i'r casgliad yn y diwedd mai dim ond yr atgyfodiad oedd yn cynnig y cysur yr oedden ni'n awchu amdano. Fe gymerodd hi lawer o amser inni dderbyn y casgliad hwnnw, hyd yn oed. Yn aml, byddwn am i gamau gael eu hunioni nawr, ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid inni bwysio ein bywydau yng nghlorian tragwyddoldeb.

Mae diwinyddiaeth o'r nefoedd yn ein helpu i sylweddoli y bydd ein dioddefiadau'n cael eu dad-wneud ryw ddydd, yn union fel y cafodd marw Crist ei ddad-wneud. Dyma'r newyddion da yr ydym yn eu cyhoeddi. Fe fydd rhai'n gwneud sbort ohonom ar brydiau, oherwydd 'y gair am y groes, ffolineb yw i'r rhai sydd ar lwybr colledigaeth, ond i ni sydd ar lwybr iachawdwriaeth, gallu Duw ydyw' (1 Corinthiaid 1:18). Ond dyna pam mae Paul yn dweud yn ein darlleniad heddiw, 'nad yw dioddefiadau'r presennol i'w cymharu â'r gogoniant sydd ar gael ei ddatguddio i ni' (adn. 18).

Gall hynny fod yn anodd ei gredu, ond dydy hynny ddim yn tynnu dim oddi ar ei wirionedd.

[1] Ymadrodd rhyfygus yn y Gymraeg, ond ymgais i gyfieithu 'God in the Dock'.

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Yn ei neges ar gychwyn blwyddyn newydd mae'r Parchg Dyfrig Rees yn annog eglwysi i lunio prosiectau arloesol, gan gynnwys ffyrdd o wneud mwy o ddefnydd o'r capel (neu'r festri) i wasanaethu'r gymuned leol, a pharhau i fod yn addoldy, wrth gwrs.

I'r perwyl hwn, mae grantiau sylweddol o hyd at £10,000 bob blwyddyn am bum mlynedd ar gael i geisiadau llwyddianus trwy'r Rhaglen Arloesi a Buddsoddi.

Mae prosiect Tŷ Croeso, Bethlehem Newydd, Pwll Trap ger Sanclêr yn Sir Gâr eisoes wedi cael sylw yn *Y Tyst*. Ond mae erthygl Annalyn Davies yn trafod yn fanwl iawn ar un angen lleol mawr sydd wedi elwa o'r prosiect. Un agwedd o'r prosiect yw hwn, ac mae sawl eglwys arall yn cyfrannu tuag at fanciau bwyd. Ond mae'n braf gweld sut yn union y llwyddwyd i ddiwallu'r angen lleol, a hynny dros gyfnod y Nadolig.

Sail ysgrythurol

Fel y gwyddom, mae sail ysgrythurol gref yn yr Hen Destament a'r Newydd sy'n dweud bod dyletswydd arnom i fywda'r newynog. Yn nameg y defaid a'r geifr (Mathew 25:31-46) mae Iesu Grist yn datgan bod y sawl sy'n methu gwneud hynny o dan felltith.

Ac mae epistol Iago yn gosod y berthynas rhwng ffydd a gweithredoedd yn eglur:

'Frodyr a chwiorydd, beth ydy'r pwynt i rywun honni ei fod yn credu, ac wedyn gwneud dim byd o ganlyniad i hynny? Ai dyna'r math o "gredu" sy'n achub rhywun? Er enghraifft, os ydych chi'n gweld brawd neu chwaer yn brin o ddillad neu heb fwyd, ac yna'n dweud, "Pob bendith i ti! Cadw'n gynnes, a gobeithio cei di rywbeth i'w fwyta." Beth ydy'r pwynt os ydych chi'n ei adael yno heb roi dim byd iddo? Mae "credu" ar ei ben ei hun yn union yr un fath. Os ydy'r "credu" ddim yn arwain at wneud rhywbeth, mae'n farw gelain.' (Iago 2:14-17 o beibl.net)

ardaloedd o gwmpas, oedd mewn angen ac yn pwysu ar y banc bwyd am gymorth. Y diwrnod hwnnw yn unig, anfonwyd allan 399 o brydiau bwyd.

Cinio Nadolig

Paratowyd cinio ar ddydd Nadolig gan wirfoddolwyr drwy gymorth ariannol y Loteri Genedlaethol. Daeth 35 o bobl ynghyd i neuadd y dref yn Hendy-gwyn ar y dydd ac fe ddsbarthwyd i gartrefi. Darparwyd cynhwysion i wneud cinio Nadolig i ddau deulu mawr fel eu bod yn medru coginio'r bwyd yn eu cartrefi.

Meddai cynrychiolydd o'r banc bwyd: 'Ni fyddem yn medru darparu'r gwasanaeth yma oni bai am garedigrwydd pobl yn ein cymunedau.' Ond yn bendant, ni fyddai unrhyw beth yn bosibl oni bai am frawdgarwch y gwirfoddolwyr.

Annalyn Davies

Swyddog Cymunedol Tŷ Croeso

BWYDA'R ANGHENUS DROS YR WYL

Casglwyd nwyddau bwyd ar gyfer Banc Bwyd Hendy-gwyn gan mai dyna'r banc bwyd sy'n darparu ar gyfer Sanclêr, Hendy-gwyn ar Daf, Bancyfelin a'r pentrefi cyfagos. Casglwyd yng ngofalaeth Bethlehem Newydd a Gibeon Bancyfelin drwy gydol mis Tachwedd ac roedd yr ymateb yn arbennig o dda. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael. Daeth £115 i law hefyd a mawr oedd diolch y gwirfoddolwyr yn y banc bwyd.

Ar ôl trosglwyddo'r nwyddau i'r banc bwyd, gwelwyd bod angen powdwr golchi no felly gwnaethpwyd casgliad ychwanegol gyda siop Bancyfelin yn cyfrannu yn ogystal â Pethau Olyp yn Sanclêr.



Bwyda bron i 400

Roedd cyfnod y Nadolig yn amser prysur iawn i'r banc bwyd. Paratowyd parseli bwyd ar gyfer brecwast, cinio a swper a byrbrydau ar gyfer 7 niwrnod. O 21 Rhagfyr ymlaen, gwelwyd cynnydd sylweddol yn rhif y trigolion o Sanclêr, Hendy-gwyn a'r

NEWYDDION DIWEDDARAF

Diwallu'r angen

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fe ddsbarthwyd 2.5 miliwn o barseli bwyd brys, gan gynnwys 145,000 yng Nghymru, gan Ymddiriedolaeth Trussell, sydd â'r rhwydwaith fwyaf o fanciau bwyd ym Mhrydain. Sefydlwyd yr elusen gan Carol a Paddy Henderson yn 1997, ar ôl cael ei hysbrydoli gan eiriau Iesu: "Oherwydd bûm yn newynog a rhoesoch fwyd i mi..." (Math.25:35)

Bwyd ysgol i bawb

Yn dilyn cytundeb rhwng Llafur a Phlaid Cymru fe fydd pob plentyn 4-11 oed yn cael mynediad i brydiau bwyd ysgol heb orfod talu yn ystod y tair blynedd nesa. Mae 87,000 o blant o deuluoedd sydd ar incwm isel, neu'n dibynnu ar fudd-daliadau, eisoes yn cael prydiau am ddim - y nifer mwyaf ers 2003, sy'n adlewyrchu'r ffaith drist bod canran sylweddol o blant Cymru'n byw mewn tlodi.

Coleg yr Annibynwyr

Cynhelir cyfarfod Tanysgrifwyr Coleg yr Annibynwr Cymraeg am 2.00 y.p. dydd Llun 14 Chwefror ar Zoom. Os hoffech gael y ddolen cysylltwch gyda'r Parch. Trefor Jones-Morris trwy: jonesmorrlist@gmail.com

Gwerthfawrogiad

Dymuna'r Parchedig Irfon Evans (Aberystwyth) ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddo yn ei brofedigaeth o golli Huw, mab gofalgac ac annwyl. Diolch hefyd i'r Parchedigion Gwilym Tudur ac Andrew Lenny am eu gwasanaeth yn yr Amlogfa.


Golygyddol

Hawl i yw adref

Yn rhifyn 10 Mehefin 2021 o'r *Tyst* fe ysgrifennodd Alun Lenny erthygl olygyddol bwerus yn galw arnom fel Cristnogion ac eglwysi i ymateb i'r argyfwng tai haf sy'n brysur newid natur cymaint o'n cymunedau. Ysgrifennodd y canlynol:

'Mae twf aruthrol ail gartrefi yn beth hollol anghyfiawn. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, yw pobl gyfoethog yn cystadlu yn erbyn y cymharol dlawd. Rydym yn gweld tai digon cyffredin a arferai werthu am lai na chan mil o bunnau nawr yn mynd ar werth am filiwn. Mae pobl ifanc lleol fyddai'n dymuno parhau i fyw yn eu cymunedau yn hollol ddiameddifyn yn wyneb grym didostur y Mamon hwn.'

Ers mis Mehefin y mae'r broblem wedi dwysáu oherwydd y cynnydd digynsail mewn prisiau eiddo yng Nghymru. Y maent wedi codi ar raddfa uwch nac unrhyw wlad arall ym Mhrydain. Y broblem yw bod presenoldeb canran uchel o dai haf mewn ardal yn ddi-faöl i deuluoedd lleol, i ysgolion a gwasanaethau - oherwydd nad oes poblogaeth sefydlog sy'n magu teuluoedd; i'r iaith Gymraeg gan nad yw'r mwyafrif o berchnogion tai gwyliau yn ymdoddi i'r diwylliant lleol ac i'r eglwysi oherwydd diboblogi. Nid yw yn iawn fod ieuencid Cymru yn gorfod gadael eu cynefin er mwyn cael cartref, neu fyw mewn carafanau, mae'n gwbl anghyfiawn. I lawer bellach y mae economi ac elw yn eilun y mae'n rhaid plygu yn ddi-gwestiwn a slafaid iddo hyd yn oed ar draul cymunedau a theuluoedd. Ni allwn dderbyn hyn. Y mae brwydr lleiafrifoedd brodorol i roesi ar hyd a lled y byd yn erbyn llywodraethau digydwbybod, cwmnïau masnachol ac economïau trachwantus yn un sy'n digwydd nawr ar bum cyfandir o'r Amason i Abersoch. Ac yr ydym ni fel Cymry yn rhan o'r frwydr fyd-eang hon.



Gwinllan Naboth

Daw hanes gwinllan Naboth - 1 Brenhinoedd 21 - i'r meddwl lle y mae'r brenin cyfoethog yn anwybyddu hawliau'r ffermwr di-rym, gan fynnu cael gafael ar ei dir. Hanes a ail-adroddir yn gyson o fewn i ddynoliaeth a rhywbeth sy'n digwydd nawr yng Nghymru. Ergyd hanes Naboth yw bod y brenin yn gweithredu yn anghyfiawn ac yn groes i ewyllys Duw.

Y mae angen i ni fel Cristnogion i sefyll gyda'n cymunedau ac yn erbyn yr anghyfiawnder sy'n digwydd ar hyn o bryd ble mae'r cyfoethog yn mathru hawliau lleol. Os na wnawn ni godi llais, pwy wnaiff? Y mae cyfle nawr i wneud rhywbeth ymarferol er mwyn argyhoeddi Llywodraeth Cymru o'r angen i ymateb ar fyrder. **Onid rhaid gwneud hynny cyn 22 Ionawr.**

Ymgynghoriadau

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn inni ymateb i dri ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r argyfwng tai. Y cyntaf yw, 'Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr' dyma'r ddolen:

<https://llyw.cymru/deddfwriaeth-pholisi-cynllunio-ar-gyfer-ail-gartrefi-llety-gwyliau-tymor-byr>

Yr ail yw, 'Ail gartrefi: amrywiadau lleol i gyfraddau'r dreth trafodiadau tir'. Dyma'r ddolen: <https://llyw.cymru/ail-gartrefi-amrywiadau-leol-i-gyfraddau-treth-trafodiadau-tir>

A'r trydydd yw, 'Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg', a'r ddolen yw: <https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg>

Anogwn chi i ymateb i'r ymgynghoriadau hyn cyn gynted â phosibl oherwydd yn amlwg os na leisiwn ein barn ni fydd neb yn clywed. Y mae ymgyrch Hawl i Fyw Adra yn darparu cymorth i lenwi'r ffurflenni trwy'r ddolen hon:


<<https://drive.google.com/drive/folders/1oJmBsfI-wjIRqIBb9deSLozk2lhZi-A>>

Nawr yw'r amser i weithredu oherwydd bydd fory yn rhy hwyr.

Alun Tudur

Beth yw Cymun?

Ym Mehefin 1890 roedd y Parchg Owen Thomas, Lerpwl, yn pregethu yn Sasiwn y Methodistiaid Calfinaidd, ar y Green yn Y Bala. Yn ystod ei bregeth roedd yn ceisio esbonio'r Cymun. Fe gymerodd un gwrandawr oedd yn y dorf nodiadau ac yn ystod y bregeth adroddwyd y stori hon:



Daniel Rowland

'Byddai Mr William Morris, o Dyddewi, yn dweyd wrthym yn Llundain, er's llawer blwyddyn bellach, am yr hen bobl yn myned i Langeitho - yr ydych yn gwybod yr hanes i gyd am danynt, yn mynd o bob parth o Ogledd Cymru braidd, o Sir Fôn a Sir Gaernarfon, heb sôn am y Deheudir, ac yn myn'd i Langeitho at y Sabbath pen mis, ac amryw weinidogion yno yn cynorthwyo Mr Rowland yn y Sabbath mawr - Jones, Llangan; Williams, Lledrod; Peter Williams, Williams, Pantycelyn, ac eraill. Ac yr oedd yr hen bobl yn edrych arni yn hanner bendith os caent hwy un o'r elfennau o ddwyllaw Rowland.

'Ac un tro, yr oedd yno rai o honynt yn dychwelyd dros y mynyddoedd i Sir Frycheiniog a Sir Gaerfyrddin, ac yn siarad â'i gilydd, ac no yn dweyd, "Mi ges i y bara a'r gwin gan Rowland," ac yn bostio ei bod wedi eu cael gan Rowland. "Gan Mr Williams y cefais i y bara a'r gwin," meddai un arall. "Ces i y bara gan Mr Williams, a'r gwin gan Mr Jones," meddai un arall.

'Ond yr oedd un hen chwaer yno heb ddweyd dim. "Pwy roes nhw i chi?" medde nhw wrthi, a hithau ddim yn gwybod. "Sut y'ch chi ddim yn gwybod? sut felly?" meddent hwythau eilwaith. "Fe'u ces i nhw, ond nis gwn gan bwy; oes gynoch chi eisio gwybod?" "Wel, yn mha le yr oedd eich

parhad ar y dudalen gefn



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

DYNA FORE

Un o freintiau pennaf fy mywyd oedd cael llywyddu oedfa lle roedd Desmond Tutu yn pregethu. Cefais ei gyflwyno i gynulleidfa orlawn capel Gellimanwydd Rhydaman. Y flwyddyn oedd 1986, ac yntau wedi annerch yng Ngŵyl Teulu Duw yn Llanelwedd ar y Sadwrn. Y bore canlynol fedrai neb ddod i mewn i'r capel heb fod wedi cyrraedd fwy na hanner awr cyn amser dechrau.

Roedd y gynulleidfa yn ymwybodol bod braint arbennig wedi'i hestyn i ni, bod y dyn mawr hwn, enillydd Gwobr Nobel am Heddwch, yn dod i bregethu yn ein plith. Roedd yr awyrgylch yn gyffrous a disgwylgar. Chafodd neb ei siomi. Daeth yr Archesgob yn egniol, yn frylmyus ac yn llawen.

Neges gofiadwy

Cofiaf ei bregeth yn dda. Roedd y gynulleidfa'n chwerrthin un funud, ac yn agos at ddagrau y nesaf. Cyhoeddwyd yr efengyl gydag arddeliad mawr. Nid y geiriau yn unig oedd yn cyffwrdd y meddwl a'r galon, wrth gwrs ond y gwybod am y diffuantrwydd costus oedd yng ngweithredu a byw y gŵr hynod hwn. Pregethodd ar winllan Naboth. Eglurodd bod y brenin am feddiannu eiddo'r dyn bach,

ac yn ei gymryd oddi arno. A dyna ni, mae'r brenin yn moyn ac mae'r brenin yn cael. Dyna ddiwedd y stori. Drwy'r byd i gyd. Ond ddim yn Israel. Achos mae Duw yn Israel sy'n caru cyfiawnder.

Cawr a phroffwyd

Gwyddem fod cawr yn ein plith. Roedd yn arwr i dyrfa fawr yr ŵyl yn Llanelwedd, ac i gynulleidfa ddisgwylgar Gellimanwydd. Ond gwyddem hefyd fod llawer yn ei gasáu – rhai o aelodau'r Eglwys Anglicanaidd yn Ne Affrica, ac yn waeth na dim, heddlu cudd y llywodraeth apartheid a'u bygythiadau brawychus.

Deallem fod proffwyd yn ein plith y Sul hwnnw, un oedd yn rhoi ei hun mewn peryg drwy lefaru yn enw Duw. Gwyddai pawb a gafodd y fraint o fod yno i ni gyrraedd yr uchelfannau y diwrnod hwnnw. Diwrnod nas anghofiwn.

Dewi M. Hughes



Beth yw Cymun? – parhad

Ilygaid wraig dda?" ebent hwythau. "Ar Galfaria," ebe hithau, a dyna gymuno iawn – dyna gymuno llawn. Y dyn yn cymeryd ei safle wrth odreu y crogfryn, ac yn edrych ar y groes ganol, ac lesu, Mab Duw, yn marw, iddo ef yr adyn oedd yn haeddu ei ddamnio gael byw byth, ac yno yn dal cymundeb drwy ffydd ag ef yn ei haeddiant mawr."

Owen Thomas a John Thomas

Hanai Owen Thomas (1812–91) o Gaergybi a Bangor ac fe ddaeth yn un o geffylau blaen y Methodistiaid Calfinaidd. Cyrhaeddodd gryn enwogrwydd fel pregethwr grymus ac effeithiol. Ymhlith nifer o gyhoeddiadau eraill o'i eiddo y mae cofiant y Parchg John Jones, Talsarn, yn cynnwys crynodeb ar hanes diwinyddiaeth a phregethu Cymru a chofiant y Parchg Henry Rees.

Annibynnwr oedd ei frawd John Thomas (1821–92) a fu hefyd yn weinidog yn Lerpwl ac a ddaeth yn un o arweinyddion yr enwad. Cyhoeddodd John Thomas nifer o lyfrau yn cynnwys *Cofiant y Tri Brawd* (J., D., a N. Stephens) a hefyd *Hanes Eglwys Annibynnol Cymru* (cydawdur â Thomas Rees). Claddwyd y ddau frawd ym mynwent Anfield, Lerpwl.

Efaciwîs

Ar nos Sul 23 Rhagfyr, ar S4C fe ddarllendir rhaglen ddogfen o'r enw *Efaciwîs: Pobol y Rhyfel*. Cyflwyniad yw'r rhaglen hon i gyfres o bedair rhaglen *Efaciwîs: Plant y Rhyfel* sy'n mynd a chriw o blant o Lerpwl, Birmingham a Llundain i fyw yn Llanuwchllyn fel plant o'r 30au a'r 40au. Bydd y plant yn dysgu



Cymraeg yn y gymuned, yn mynd i'r ysgol, yn bwyta bwyd y cyfnod a gneud pethau o'r cyfnod hefyd – yn byw fel efaciwîs i bob pwrpas. Bydd cyfweiliadau gyda phobol a fu'n efaciwîs go iawn adeg y rhyfel hefyd.

Wedi'r 4 rhaglen bydd rhaglen ddogfen *DRYCH: Lloches* ar 20 Chwefror sy'n edrych ar rôl Cymru yn yr ymdrech i gynnig lle diogel i ffoaduriaid heddiw.

Yn ogystal â chynnwys diddorol y rhaglenni, yn hyn sydd o ddiddordeb mawr i ni ddarllenwyr *Y Tyst* yw fod y Parchg Carwyn Siddall, Llanuwchllyn yn cymryd rhan, fel gweinidog – o bopeth – yn y gyfres. Cofiwch wylio.



Testun llawenydd mawr i aelodau eglwys Annibynnol Mynydd Seion, Casnewydd oedd derbyn Efa Maher yn aelod cyflawn o'r eglwys yn ystod eu hoedfa Nadolig a hynny gan ei mam, Elin Maher.